# Adroddiad Archwiliad Gofal Cartref

## Diweddariad i’r Pwyllgor Archwilio (Ebrill 2026)

Yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 28/11/2024, cyflwynwyd adroddiad *Archwiliad Arbennig Gofal Cartref* gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Nodwyd yn yr adroddiad fod y model comisiynu gofal cartref yn uchelgeisiol, a bod heriau sylweddol o ran ei weithredu.

Canfuwyd nad oedd rhai prosesau’n effeithiol, gan gynnwys y defnydd a’r rheolaeth o ddata, yn ogystal â monitro a rheoli cyllidebau. Nodwyd hefyd fod angen mynd i’r afael â’r materion hyn yn gyflym. Gofynnwyd i’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ddarparu diweddariad pellach ar y camau oedd ar y gweill.

Cyflwynwyd diweddariad i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 06/02/2025. Derbyniwyd yr adroddiad, a chroesawodd y Pwyllgor y rhaglen waith. Fodd bynnag, gofynnwyd am ddiweddariad pellach ymhen blwyddyn. Mae’r adroddiad hwn yn darparu’r diweddariad cryno hwnnw.

## Llwyddiannau a Datblygiadau

i. Yn 2025, roedd sawl is-ardal yng Ngwynedd yn peri pryder, gan nad oedd darparwyr yn gallu ymateb i’r galw am ofal. Mewn dau is-ardal, mae’r cytundebau wedi’u terfynu, a rhoddwyd trefniadau newydd ar waith gyda darparwyr amgen. Er bod y broses hon wedi galw am gryn dipyn o amser ac adnoddau, mae wedi bod yn llwyddiannus. Mae darpariaeth gofal yn yr ardaloedd hyn bellach yn fwy sefydlog, gyda llai o bobl ar restrau aros.

ii. Pryder sylweddol arall oedd nifer yr oriau gofal oedd yn cael eu talu ond heb gael eu darparu’n uniongyrchol. O dan y trefniant bloc, roedd disgwyl i ddarparwr, er enghraifft, ddarparu 500 awr o ofal yr wythnos, ac roedd taliad yn cael ei wneud ar gyfer yr holl oriau hynny. Pan nad oedd darparwr yn gallu darparu y nifer hwnnw o oriau, roedd y broses o addasu’r blociau’n gymhleth ac yn anhyblyg, ac felly am gyfnodau estynedig roedd yn ymddangos fod oriau ‘gwastraff’ yn cael eu talu.

    O ganlyniad i'r rhaglen waith, mae nifer yr oriau nad ydynt yn mynd tuag at ofal uniongyrchol wedi lleihau’n sylweddol – o dros 1,000 o oriau y mis ar ddechrau 2025–26 i lai na 500 awr y mis erbyn Mawrth 2026. Mae hyn yn cyfateb i arbediad o tua £20,000 y mis, naill ai oherwydd nad yw’r oriau hyn bellach yn cael eu talu yn sgil monitro a lleihau’r oriau bloc, neu oherwydd eu bod yn cael eu hailgyfeirio at ddarparwyr sy’n gallu darparu gofal uniongyrchol. Er bod cynnydd clir wedi’i

wneud, mae un ardal yn parhau i achosi heriau, ac mae trafodaethau'n parhau yno. Mae'r cytundebau yn cyfyngu ar ein gallu i gael gwared ar yr oriau yma yn gyfan gwbl.

iii. Mae sefyllfa debyg i'w gweld yn y timau darparu mewnol. Ceir adegau yn ystod y dydd pan fo'r galw am ofal yn gymharol isel (er enghraifft, rhwng 2 a 4 o'r gloch y prynhawn). Yn hanesyddol, roedd patrymau shifft y gweithlu'n golygu bod gormod o staff yn gweithio yn ystod yr oriau hyn, a ddim digon ar gael pan fo galw uwch. Mae newidiadau i batrymau gwaith bellach ar y gweill yn ardaloedd Ffestiniog a Thywyn, a disgwylir i'r rhain arwain at well cydweddiad rhwng yr oriau staffio a'r anghenion gofal.

iv. Roedd yr adroddiad gwreiddiol hefyd yn nodi pryderon ynghylch taliadau hwyr a rheolaeth gyllidebol annigonol. Mae'r trefniadau bellach wedi'u diwygio, gyda thimau gwaith cymdeithasol yr is-ardaloedd yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros adolygu'r taenlenni a gyflwynir gan ddarparwyr. Mae hyn yn galluogi'r timau i adnabod ac ymateb yn gynt i unrhyw fylchau neu wallau yn y data. Mae'r Tîm Comisiynu a Chontractau'n cefnogi ac yn hwyluso'r broses hon. O ganlyniad, mae gwybodaeth am ddarpariaeth gofal yn fwy cywir, ac mae taliadau'n cael eu gwneud yn fwy prydlon ac yn fwy cyson.

v. Yn dilyn o'r adroddiad llechen lan oedolion, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gryfhau ein gallu i ddiwallu anghenion mewn ffyrdd amgen, lle nad oes angen gofal cartref traddodiadol. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o becynnau sy'n cael eu darparu drwy daliadau uniongyrchol, cynnydd yn y niferoedd sydd yn gwneud defnydd o dechnoleg yn y cartref, ac mae'r tim hybu annibyniaeth wedi ei sefydlu gyda arweinydd wedi ei benodi i arwain y tîm. Bydd y tîm yn canolbwyntio ar feysydd fel taliadau uniongyrchol, technoleg, roboteg ayyb gan hybu ein gallu i wneud y mwyaf o'r opsiynau yma.

## Heriau

Er bod y rhestrau aros am ofal cartref wedi'u diddymu neu'u lleihau'n sylweddol mewn rhai ardaloedd (megis Ardudwy, Pwllheli a Thywyn), maent yn parhau'n uchel mewn is-ardaloedd eraill, gan gynnwys Ffestiniog a Nantlle. Serch hynny, mae llai o bobl bellach yn disgwyl am gyfnodau estynedig, er enghraifft dros 90 diwrnod. Mae gwaith penodol ar y gweill i flaenoriaethu'r unigolion hyn, ac mae trafodaethau'n parhau i ddenu darparwyr ychwanegol o ardaloedd cyfagos i helpu i leddfu'r pwysau. Mae ymdrechion a thrafodaethau lleol yn y timau ardal i ganfod cyfleoedd i ryddhau oriau ar gyfer unigolion sy'n aros.

Mae recriwtio a chadw staff yn parhau'n her sylweddol ar draws y sector. Yn fewnol, mae lefelau salwch yn her, ond yn gyffredinol ar draws y sector mae recriwtio o dramor wedi bod yn helpu i gynnal y sector dros y blynyddoedd diwethaf. Ers 22/07/2025, nid yw'n bosibl i ddarparwyr recriwtio gweithwyr o dramor. Mae unigolion sydd eisoes wedi symud i Wynedd o dramor i weithio yn y sector yn sicr o'u cyflogaeth hyd at 2028 yn unig, ac o ganlyniad mae rhai'n ystyried eu dyfodol yma yng Ngwynedd.
Er gwaethaf ymdrechion lleol, gan gynnwys datblygu'r Academi Gofal, mae'r lefel bresennol o ddibyniaeth ar weithwyr o dramor yn awgrymu nad yw hon yn broblem y gellir ei datrys ar lefel leol yn unig. Mae hyn yn cynrychioli risg sylweddol i'r sector yn gyffredinol, ac i ofal cartref yn arbennig.

## Camau Nesaf

Mae'r cytundebau gofal cartref presennol yn dod i ben ym mis Hydref 2027. Mae gwaith wedi cychwyn yn gwerthuso'r model presennol a'r ffordd y darperir gofal cartref yng Ngwynedd.

Dros y misoedd nesaf, bydd y Tîm Comisiynu yn parhau i ymgysylltu â defnyddwyr gofal cartref a'u teuluoedd, unigolion sy'n aros am ofal, y gweithlu proffesiynol, gweithwyr gofal, darparwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn casglu adborth a thrafod opsiynau.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda chynghorau eraill sydd wedi treialu modelau tebyg, er mwyn rhannu profiadau a dysgu o arfer da. Disgwylir cyflwyno rhestr fer o opsiynau i'w gwerthuso erbyn diwedd yr Hydref, gan roi digon o amser i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau posibl i'r model a'r cytundebau. Nod hyn oll yw sicrhau bod y Cyngor yn y sefyllfa orau bosibl i ddarparu gofal cartref cynaliadwy ac effeithiol i drigolion Gwynedd.